



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y **Panel Perfformiad Craffu - Addysg**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 1 Medi 2021 am 4.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

C Anderson
D W Helliwell
R V Smith

Y Cyngorydd(wyr)

A M Day
L James

Y Cyngorydd(wyr)

S J Gallagher
S M Jones

Hefyd yn bresennol

Robert Smith Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

Swyddogion

Helen Morgan-Rees	Cyfarwyddwr Addysg
Kevin Davies	Estyn
Ceri Davies	Estyn
Michelle Roberts	Swyddog Craffu

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd/wyr: B Hopkins, M A Langstone a L J Tyler-Lloyd
Aelodau Cyfetholedig: D Anderson Thomas ac A Roberts

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

None

2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

None

3 Cofnodion

Derbyniwyd y cofnodion a'r llythyr o gyfarfod y Panel ar 15 Gorffennaf 2021.

4 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 Trefn newydd Estyn ac adolygiadau thematig

Daeth dau gynrychiolydd o Estyn, Kevin Davies a Ceri Jones, i'r Panel i roi cyflwyniad ar y trefniadau diwygiedig ar gyfer arolygu ysgolion. Gofynnodd y Panel iddynt hefyd gynnwys y materion canlynol a anfonwyd cyn y cyfarfod:

1. Sut bydd y drefn arolygu newydd yn edrych ar agweddau ar y cwricwlwm newydd a Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol?
2. Mae gan y Panel, o ystyried y sefyllfa bresennol, ddiddordeb arbennig yn y ffordd yr edrychir ar les.
3. Maes arall y mae'r Panel wedi'i ddilyn yn agos yw'r gwasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol a hefyd strategaethau ymddygiad ysgolion - byddai gennym ddiddordeb mewn darganfod sut y bydd Estyn yn edrych ar hyn ac yn benodol sut mae ysgolion yn gweithio gyda'r disgyblion mwyaf heriol?
4. O ystyried y newidiadau sydd ar y gweill mewn perthynas â gweithgarwch addysg rhanbarthol, a yw Estyn yn edrych ar y cyrff addysg rhanbarthol a pha mor effeithiol y maent yn cefnogi addysg leol?

Nodwyd y canlynol

- Dechreusant gyda'r cafeat nad ydynt yn ffafrio unrhyw fethodoleg benodol a'u hathroniaeth o ran arolygu yw edrych ar sut y caiff pethau eu gwneud ac yna barnu effaith y rhain yn ôl eu canlyniadau.
- Maent yn cydnabod bod y flwyddyn a hanner diwethaf wedi bod yn anodd ac yn heriol iawn i ddysgwyr a'u teuluoedd. Mae Estyn wedi ceisio darparu gwybodaeth am eu cynlluniau ar gyfer y gwaith arolygu ac ymgysylltu a wneir yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd blwyddyn academaidd 2021/22 yn canolbwyntio ar gefnogi adnewyddu a diwygio ac o ganlyniad i hyn maent yn ymestyn ataliad y rhaglen arolygu graidd ar gyfer ysgolion ac unedau UCD i gynnwys tymor yr hydref 2021, felly ni fyddwn yn dechrau arolygu ysgolion tan dymor y gwanwyn.
- Yn ystod tymor yr hydref, byddant yn parhau i ofyn i'r holl randdeiliaid am eich adborth ar ein trefniadau arolygu newydd a gellir gwneud hyn unrhyw bryd drwy wefan Estyn.
- Eu nod yw treialu'r trefniadau arolygu newydd mewn nifer bach o ysgolion, er mwyn iddynt allu gwirio sut mae'r trefniadau'n gweithio yn yr hinsawdd newydd. Byddai effaith COVID wedi bod yn fawr ar ddysgu felly bydd yn rhoi cyfle da i ni fynd allan ac edrych ar sut yr effeithiwyd ar ddysgu yn ystod y pandemig. Byddant yn gofyn i ddarparwyr unigol am eu cytundeb i fod yn rhan o'r cynlluniau peilot hyn. Efallai y byddant yn dal i gynnal arolygiadau o ysgolion eraill lle mae amgylchiadau eithriadol.
- Ar hyn o bryd nid ydynt yn arolygu consortia rhanbarthol yn uniongyrchol. Yn hytrach, rydym yn edrych ar eu gwaith drwy arolygu awdurdodau lleol, ond gallai hyn newid.
- Dan y trefniadau newydd mae 5 ardal arolygu o hyd ac maent yr un peth mwy na thebyg. Mae'r un cyntaf wedi'i ailenwi'n 'dysgu'. Mae lles, agweddau a phrofiadau dysgu ac addysgu yr un peth. Mae hynny'n cynnwys datblygiadau sydd yn y cwricwlwm newydd. Mae gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr un peth.
- A'r cyhoeddiad diweddaraf gan y llywodraeth yw bod disgwyl i bob sector ddefnyddio'r cyfnod rhwng mis Medi a mis Ionawr i fyfyrion ar y canllawiau a dechrau'r gwaith paratoi.

- Mae'r canllawiau arolygu a gynhyrchwyd eleni yn benodol ac yn gliriach nag erioed o'r blaen.
- Buont yn siarad am sut y byddant yn edrych ar gynnydd gyda disgyblion ag ADY. Byddant yn gwerthuso i ba raddau y mae'r disgyblion wedi datblygu eu sgiliau corfforol. Eu sgiliau motor manwl, symudedd, sgiliau byw'n annibynnol, eu sgiliau cymdeithasol yn ogystal â'u sgiliau academaidd. Y sgiliau a fydd yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol. A byddwn yn edrych ar wahanol fathau o anghenion ychwanegol a pha mor dda y mae ysgolion yn darparu hyn yn gyffredinol.
- Ni fydd data ynghylch presenoldeb yn ddefnyddiol o gwbl, felly ni fyddant yn edrych ar bresenoldeb na chyfartaleddau presenoldeb a sut mae ysgolion yn cymharu â'i gilydd. Er y byddant yn ystyried sut mae ysgolion yn annog disgyblion i ddod yn ôl i'r ysgol ac aros yn yr ysgol a dysgu yn yr ysgol. Ac os na allant wneud hynny, sut maent yn darparu ar eu cyfer yn rhithwir?
- Wrth werthuso'r ddarpariaeth ddysgu, dylai'r arolygydd cymorth ystyried pa mor dda y mae'r ysgol neu'r UCD yn rhoi sicrwydd bod disgyblion sy'n cael eu haddysgu oddi ar y safle neu ar y safle yn cael cymorth priodol a hefyd pa mor dda y maent yn defnyddio partneriaethau gydag ysgolion neu asiantaethau eraill i ddarparu cymorth effeithiol.
- Maent yn ei gwneud hi'n glir yn y trefniadau arolygu newydd y dylai arolygwyr fynd ati i werthuso cwricwlwm y darparwr mewn ffordd hyblyg a chadarnhaol. Pan fyddant yn dechrau arolygu eto, bydd angen iddynt edrych ar sefyllfa ysgolion gyda'r cwricwlwm newydd. Bydd ysgolion yn defnyddio dogfen Llywodraeth Cymru, Y Daith i 2022 i'w harwain. Bydd ganddynt ddiddordeb mewn gweld sut mae cwricwlwm yr ysgol yn cyd-fynd â'u gweledigaeth. Ac a ydyn nhw'n gwybod i ble maen nhw'n mynd? Ac yng ngoleuni hynny,
- roeddent yn falch o weld y bydd y defnydd o'r awyr agored yn cael ei werthuso, a allai fod yn ymweliadau, a pha mor dda y mae'r ysgol hon yn cyfoethogi'r cwricwlwm drwy weithgareddau ychwanegol.
- Maent hefyd am werthuso pa mor dda y mae ysgolion yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu a hefyd effeithiolrwydd arweinyddiaeth. Cynnwys wrth hyrwyddo staff a lles yn weithredol. A byddwn hefyd yn gwerthuso pa mor effeithiol mae arweinwyr a rheolwyr wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.
- Rhoddir mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion mewn sefyllfa ffurfiol ac anffurfiol. Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cynllun strategol i ddatblygu'r Gymraeg a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Y newidiadau cyffredinol, a hoffent weld bod eu hadroddiadau arolygu hyd yn oed yn fwy defnyddiol i ysgolion a phobl sy'n eu defnyddio. Felly mae'r newidiadau wedi cynnwys:
 - naratif cyfoethog sy'n disgrifio cryfderau'r ysgolion a meysydd i'w gwella. Maent wedi cael gwared ar ddyfarniadau crynodol, felly ar gyfer unrhyw adran benodol, unrhyw faes arolygu penodol, nid oes dyfarniad penodol ar gyfer hyn mwyach. Dim ond y cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella bydd yn cael eu hadrodd.
 - Yna mae newid i'r cyfnod rhybudd y mae ysgolion yn ei gael.
 - Nid oes unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau dilynol. Bydd gwelliant sylweddol fel categori statudol a mesurau arbennig yn bodoli o hyd.
- Dywedasant y bydd ganddynt feddylfryd arolygu sy'n eu helpu i sicrhau'r hyn sydd orau i ddysgwyr. Dylai hyn alluogi swyddogion arolygu i siarad ag arweinwyr,

athrawon a staff cymorth yn broffesiynol ac yn adeiladol pan fyddant allan yn arolygu. Byddant yn fyfyrionol ac yn gefnogol yn ogystal â theg a diduedd.

- Teimlai'r Panel ei bod yn bwysig iddynt gael y diweddaraf am y newidiadau ac yn enwedig yn yr amgylchiadau presennol yn dilyn y 18 mis diwethaf. Roedd y Panel o'r farn ei bod yn dda ac yn braf clywed bod Estyn eu hunain wedi bod yn adolygu camau gweithredu a'u dull o arolygu.

Gofynnodd y Panel:

- A yw Estyn yn sôn am ffyrdd o gyflawni'r gwelliant hwnnw? Neu a ydych chi'n gadael i'r ysgolion unigol a'r awdurdodau lleol benderfynu ar hynny eu hunain? Dywedasant nad ydynt yn awgrymu'r dulliau o wella. Maent yn edrych ar y pethau y mae angen eu gwella ac yn ceisio eu blaenoriaethu fel eu bod yn cael eu cyfyngu i nifer bach o argymhellion allweddol.
- O ran y pum maes, a ydynt i gyd yr un mor bwysol? Clywodd y Panel nad yw'r rhain wedi'u pwysoli.
- Rydym wedi clywed bod mwy o rieni'n dymuno addysgu eu plant gartref, a pha heriau sy'n codi i chi fel corff arolygu o ganlyniad i hynny. Clywodd y Panel unwaith y mae disgyblion yn dadgofrestru o'r ysgol, nid ydynt yn dod o dan Estyn mwyach ond bod yr awdurdod lleol yn gweithio i gefnogi disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref lle bo'n bosib.

6 Diweddariad - Adferiad Addysg ar ôl COVID yn symud i flwyddyn ysgol newydd

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg yr wybodaeth ddiweddaraf i'r panel am y sefyllfa bresennol o ran adferiad COVID wrth i'r flwyddyn ysgol newydd ddechrau.

- Mae'r sefyllfa'n dal i fod yn eithaf amhendant. Daeth rhai o ganllawiau Llywodraeth Cymru drwyddo ym mis Awst a chyflwynwyd y canllawiau diweddaraf ddydd Gwener diwethaf. Felly rhoddwyd crynodeb o'r prif newidiadau i'r panel.
- Mae'n glir bod angen i ni geisio normaleiddio ysgolion gymaint â phosib a dychwelyd i sefyllfa busnes fel arfer. Felly gan ein bod ar lefel rhybudd 0 mae ein polisi presennol yn golygu nad oes angen i unrhyw gysylltiadau ag achosion o COVID a gadarnhawyd hunanynysu os nad oes ganddynt symptomau, os ydynt wedi cael eu brechu ddwywaith ac os ydynt dan 18 oed. Mae'n newyddion da o bosib gan na fydd yn rhaid i ni hunanynysu grwpiau cyfan mewn ysgolion uwchradd a swigod dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd newydd. Felly mae hynny'n newid mawr o ran y pwyntiau allweddol eraill wrth symud ymlaen. Ond os oes gan unrhyw un symptomau COVID a phrawf positif, fel pobl yn Abertawe mae'n rhaid iddynt ynysu ar unwaith, felly mae cyfrifoldeb enfawr o ran gweithio gyda rhieni a gofalwyr yn Abertawe i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau.
- Nid oes gofyniad mwyach i wisgo mygydau neu orchuddion wyneb. Fodd bynnag, os yw disgybl yn teimlo yr hoffai wisgo mwgwd wyneb o hyd, wrth gwrs byddai hynny'n cael ei ganiatáu ac ar gyfer ysgolion uwchradd rydym yn cynnig gwisgo gorchuddion wyneb ar gludiant ysgol.
- Newid arall yw ein bod wedi gweithio dan ddyletswyddau hamddenol lle'r oedd hyblygrwydd i ysgolion gyflwyno amserau cychwyn a gorffen ysgol cyfnodol. Daw hyn i ben yn awr a bydd ysgolion yn dychwelyd i'w hamserau arferol, felly byddant yn gweithredu'r amserau dechrau a gorffen arferol a oedd ganddynt cyn COVID.

- Byddwn yn cynnal y drefn lanhau ddwys yn yr ysgol.
- Anogir yr holl staff a disgyblion uwchradd i gymryd profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos ac i adrodd y canlyniadau hynny i'r porth ar-lein.
- Bydd newid yn y canllawiau gweithredol y mae ysgolion wedi dod i arfer â hwy, sydd wedi'u llunio ar lefel genedlaethol ac yna eu hystyried eto yn Abertawe ar lefel leol, bydd hyn yn dod i rym o 20 Medi. Byddwn yn cefnogi ein hysgol i fynd i'r afael â'r fframwaith cenedlaethol newydd dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn mynd i gyfarfod â'r holl benaethiaid yn Abertawe cyn bo hir. Mae gennym bythefnos i ddeall goblygiadau'r fframwaith cymedr hwnnw ac rydym yn dal i weithio arno ein hunain er mwyn cael y prif negeseuon ohono.
- Fel o'r blaen, bydd swyddogion iechyd yr amgylchedd yn yr adran Profi, Orlhain Diogelu (POD) yn gyfrifol am gysylltu â phob achos positif. Mae angen i ysgolion gadw rhyw fath o gofnod o hyd os oes ganddynt ddisgybl ag achos positif.
- Mae'r Prif Swyddog Meddygol yng Nghymru o'r farn nad yw plant a phobl ifanc bellach yn agored iawn i niwed yn glinigol ac y byddant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o gleifion sy'n gwarchod yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd nifer bach o ddisgyblion sy'n dal i dderbyn cyngor clinigol arbenigol.
- Clywodd y Panel ein bod yn dal i aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am ansawdd aer ac awyru gan gynnwys yr hyn a argymhellir yn ein hystafelloedd dosbarth. Gwnaeth ein swyddog iechyd a diogelwch yma yn Abertawe argymhell y byddai ychydig o aer yn llifo drwy'r ystafell ddosbarth yn ddigonol. Fodd bynnag, mae gennym wahanol fathau o adeiladau ar gyfer ein hysgolion, felly mae angen i ni ystyried hynny.
- O ran ymweliadau addysgol, bydd angen asesiad risg o unrhyw fath o ymweliad addysgol, gan gynnwys ymweliadau rhyngwladol yng ngoleuni'r system goleuadau traffig. Ac yn amlwg, mae'n rhaid i'r asesiad risg ystyried unrhyw aelodau o staff a fydd yn goruchwyllo plant dramor, a beth fyddai'n digwydd pe gallent contractio COVID a sut y byddai'r plant hynny'n cael eu goruchwyllo dramor pe bai hynny'n digwydd.
- Ysgrifennwyd at bob rhiant yn Abertawe cyn i ysgolion agor i gyfleu'r disgwyliadau sydd gennym ganddynt pan fydd yr ysgol yn dechrau.

7 Diweddariad - Craffu Rhanbarthol yn symud ymlaen

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y sefyllfa bresennol gyda'r bartneriaeth addysg ranbarthol wrth symud ymlaen.

- Bydd y bartneriaeth newydd yn cael ei datblygu yn ystod tymor yr hydref. Bydd y tri chyngor yn cyflwyno adroddiad i'w cyngor llawn i gymeradwyo'r cytundeb cyfreithiol newydd. Bydd y cytundeb cyfreithiol newydd hwn yn caniatáu ffurfio cyd-bwyllgor ffurfiol newydd ar gyfer y bartneriaeth newydd. Yn y cyfamser, mae cyd-bwyllgor cysgodol ar waith. Dylai pob cyngor cyfansoddol fod o fewn partneriaeth ffurfiol fel bod cymeradwyaeth ar gyfer cytundeb cyfreithiol newydd yn ganolog.
- Mae'r cytundeb cyfreithiol drafft newydd yn cynnwys trefniadau craffu manwl iawn yn ogystal â threfniadau llywodraethu ar gyfer y bartneriaeth newydd. Bydd ganddo wahanol haenau o lywodraethu a rhyngberthnasoedd rhwng y grwpiau.

Bydd y cytundeb cyfreithiol newydd yn caniatáu i gyd-bwyllgor newydd gael cyfrifoldebau dirprwyedig gan bob cyngor cyfansoddol i wneud penderfyniadau o ran y bartneriaeth newydd. Byddai'r cyd-bwyllgor yn cyfarfod bob chwarter. Bydd yn cynnwys arweinwyr o bob un o'r cynghorau a'r tri aelod cabinet ar gyfer pob un o'r cynghorau hynny. A byddai'r priif weithredwyr yn cymryd rhan yn ogystal â'r cyfarwyddwyr addysg a phennaeth y bartneriaeth newydd.

- Bydd yr haen nesaf yn cynnwys y Grŵp Cynghorwyr Craffu. Bydd hyn yn gweithredu yn yr un modd â Grŵp Cynghorwyr Craffu presennol ERW.
- Er bod proses o drosglwyddo i gytundeb cyfreithiol newydd, rhaid dod â'r broses bresennol i ben. Felly, ar hyn o bryd mae gan ERW gyd-bwyllgor gyda'i aelodaeth bresennol. Bydd angen iddo gyfarfod o leiaf unwaith y tymor hwn i ddod â materion i ben fel y gellir llunio'r bartneriaeth newydd.
- Bydd gan y Bartneriaeth Addysg newydd grŵp strategol hefyd a fydd yn bwydo i mewn i'r cydbwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys pennaeth y bartneriaeth newydd gyda'r tri chyfarwyddwr addysg a hefyd unrhyw swyddogion strategol sy'n gweithio o fewn y bartneriaeth newydd. Bydd grŵp gweithrediadau swyddog hefyd a fydd yn bwydo i mewn i'r grŵp strategol. Yr haen olaf fydd y grŵp rhanddeiliaid a bydd hynny'n cynnwys 12 o'r Penaethiaid sy'n cwmpasu'r sectorau cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.
- Rhagwelir y bydd yr adroddiad yn mynd i'r cyngor ym mis Tachwedd.

8 Cynllun Gwaith 2021- 2022

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm

Cadeirydd